

Datganiad Ysgol Pentreuchaf Y Grant Datblygu Disgyblion



Mae'r datganiad hwn yn rhoi manylion ynghylch defnydd ein hysgol o'r GDD ar gyfer blwyddyn academiaidd 2026 i 2027.

Mae'n amlinellu ein strategaeth, sut rydym yn bwriadu gwario'r cyllid yn y flwyddyn academiaidd hon a'r effaith a gafodd gwariant y llynedd o fewn ein hysgol.

Os yw'ch rhifau yn 5 neu lai, defnyddiwch * yn lle'r dyraniad er mwyn diogelu plant rhag cael eu hadnabod.

Trosolwg Ysgolion

Manylion	Data
Enw'r ysgol	Ysgol Pentreuchaf
Nifer y Disgyblion yn yr Ysgol	95
Cyfran (%) o ddisgyblion sy'n gymwys i'r GDD	*
Dyddiad cyhoeddi'r datganiad hwn	28/09/2026
Dyddiad y caiff ei adolygu	28/09/2027
Awdurdodwyd y datganiad gan	Helen Vaughan-Jones
Yn arwain ar y GDD	Helen Vaughan-Jones
Llywodraethwr sy'n arwain	Mrs Lois Jones

Trosolwg Cyllid

Manylion	Swm
Dyraniad cyllid GDD y flwyddyn academiaidd hon	*
Cyfanswm cyllideb y flwyddyn academiaidd hon	*

Rhan A: Cynllun Strategaeth

Datganiad o fwriad

Nod yr ysgol yw sicrhau bod disgyblion sy'n gymwys i'r GDD, a disgyblion eraill sy'n wynebu rhwystrau oherwydd anfantais, yn cael cyfleoedd cyfartal i ffynnu'n academiaidd, yn gymdeithasol ac yn emosiynol. Byddwn yn defnyddio'r cyllid i leihau rhwystrau i ddysgu a chyfranogiad drwy gryfhau cymorth lles ac emosiynol, ehangu mynediad at brofiadau cerddorol a chwaraeon a sicrhau nad yw cost teithiau, ymweliadau addysgol nac ymweliadau preswyl yn atal disgyblion PYD rhag cymryd rhan. Ein hegwyddor yw targedu cymorth yn ôl angen, monitro cyfranogiad a chynnydd, a sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael effaith gadarnhaol ar les, presenoldeb, ymgysylltiad a chyfleoedd dysgu disgyblion.

Canlyniadau a fwriedir

Mae hyn yn esbonio'r canlyniadau rydym yn anelu atynt **erbyn diwedd ein cynllun strategaeth presennol**, a sut y byddwn yn mesur a ydynt wedi'u cyflawni.

Canlyniad a fwriedir	Meini prawf llwyddiant
Gwella lles emosiynol a gallu disgyblion targed, gan gynnwys disgyblion PYD, i ymgysylltu'n gadarnhaol â dysgu.	Bydd cymhorthydd dosbarth wedi mynychu hyfforddiant/sesiynau ELSA ac yn darparu ymyriadau rheolaidd wedi'u targedu. Bydd cynnydd yn cael ei fonitro drwy gofnodion ELSA, llais y disgybl, arsylwadau staff a data lles/presenoldeb lle bo'n briodol.
Cynyddu mynediad disgyblion PYD at weithgareddau cyfoethogi, chwaraeon a cherddoriaeth.	Bydd disgyblion PYD yn gallu cymryd rhan mewn cystadlaethau a gweithgareddau'r Urdd ac mewn gwersi cerdd heb i gost fod yn rhwystr. Cedwir cofnod o gyfranogiad ac ymgysylltiad.
Sicrhau mynediad teg at deithiau, ymweliadau addysgol ac ymweliadau preswyl, a'r profiadau dysgu, cymdeithasol ac annibynnol sy'n deillio ohonynt.	Bydd cymorth o 25% tuag at gost unrhyw daith neu ymweliad addysgol yn ystod y flwyddyn, ynghyd â 25% tuag at gost ymweliadau preswyl, ar gyfer disgyblion PYD yn lleihau'r baich ariannol ac yn sicrhau mynediad teg at y profiadau hyn. Bydd yr ysgol yn monitro cyfraddau cymryd rhan a llais y disgyblion.
Lleihau effaith anfantais ar brofiadau, hyder a chyfleoedd disgyblion.	Bydd tystiolaeth o gyfranogiad ehangach, gwell hyder ac ymgysylltiad

	a mynediad mwy cyfartal at brofiadau'r ysgol ymhlith y disgyblion targed.
--	---

Gweithgarwch yn y flwyddyn academiaidd hon

Mae hyn yn rhoi manylion sut rydym yn bwriadu gwario ein GDD **y flwyddyn academiaidd hon** i gyflawni y canlyniadau a fwriedir a restrir uchod.

Dysgu ac addysgu

Cost wedi'i chyllidebu: *

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Cyllido amser cymhorthydd dosbarth i fynychu hyfforddiant/sesiynau ELSA yn ystod y flwyddyn ac i ddarparu sesiynau unigol neu grŵp bach i ddisgyblion sydd angen cymorth emosiynol ychwanegol, gan gynnwys disgyblion PYD.	Mae dulliau sy'n canolbwyntio ar ddysgu cymdeithasol ac emosiynol yn ceisio gwella hunanymwybyddiaeth, rheoli emosiynau, perthnasoedd ac ymgysylltiad â dysgu. Bydd yr ysgol yn targedu'r ddarpariaeth yn ôl angen ac yn monitro cynnydd drwy gofnodion ymyrraeth, llais y disgybl ac arsylwadau staff.

Ysgolion Bro (i gynnwys: (i) meithrin partneriaethau cryf gyda theuluoedd; (ii) ymateb i anghenion y gymuned; (iii) cydweithio'n effeithiol â gwasanaethau eraill)

Cost wedi'i chyllidebu: £ *[nodwch swm]*

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Gallwch ychwanegu neu ddileu rhesi yn ôl yr angen	

Strategaethau ehangach (er enghraifft a lle bo hynny'n berthnasol, lechyd a Lles, Cwricwlwm a Chymwysterau, Arweinyddiaeth a Chodi Dyheadau)

Cost wedi'i chyllidebu: *

Gweithgaredd	Tystiolaeth sy'n cefnogi'r dull hwn
Talu am aelodaeth Yr Urdd ar gyfer disgyblion targed er mwyn sicrhau eu bod yn gallu cymryd rhan mewn cystadlaethau chwaraeon a gweithgareddau perthnasol. Talu hefyd yn llawn am wersi cerdd a ddarperir gan y gwasanaeth cerdd peripatetig ar gyfer disgyblion targed.	Mae mynediad at weithgareddau allgyrsiol, chwaraeon ac addysg gerddorol yn ehangu profiadau ac yn cefnogi lles, hyder, creadigrwydd a dyfalbarhad. Bydd y cyllid yn helpu i sicrhau nad yw incwm y teulu yn rhwystro i gyfranogiad na mynediad at y cyfleoedd hyn.
Cyfrannu 25% tuag at gost unrhyw daith neu ymweliad addysgol yn ystod y flwyddyn ar gyfer disgyblion PYD, yn ogystal â chyfrannu 25% tuag at gost ymweliadau preswyl.	Mae teithiau ac ymweliadau addysgol, gan gynnwys profiadau preswyl, yn cyfoethogi dysgu ac yn cefnogi annibyniaeth, gwydnwch, medrau cymdeithasol, perthnasoedd a chodi dyheadau. Bydd y cymhorthdal yn lleihau rhwystrau ariannol ac yn sicrhau bod disgyblion PYD yn cael mynediad teg at y cyfleoedd a'r profiadau hyn.

Cyfanswm cost y ceisiadau: *

Rhan B: Adolygiad o ganlyniadau'r flwyddyn academiaidd flaenorol

Canlyniadau'r GDD

Mae hyn yn rhoi manylion yr effaith a gafodd ein gweithgarwch GDD ar ddisgyblion ym mlwyddyn academiaidd 2025 i 2026.

Gweithgarwch	Effaith
Defnyddio'r GDD tuag at gyflogi cymorthyddion i gefnogi grwpiau o ddisgyblion sy'n cynnwys disgyblion sy'n derbyn PYD.	Mae'r gefnogaeth ychwanegol wedi galluogi disgyblion i dderbyn cymorth wedi'i dargedu mewn grwpiau bach ac yn unigol. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion wedi gwneud cynnydd cadarn yn eu medrau llythrennedd, rhifedd a'u lles ac wedi dangos mwy o hyder ac annibyniaeth yn eu dysgu.
Darparu rhaglen ymyrraeth a chefnogaeth ELSA.	Mae'r ddarpariaeth ELSA wedi cefnogi datblygiad emosiynol a chymdeithasol y disgyblion mwyaf bregus. Mae'r rhan fwyaf wedi datblygu strategaethau gwell i reoli emosiynau, magu hunanhyder a meithrin perthnasoedd cadarnhaol, gan arwain at well ymgysylltiad â bywyd a dysgu'r ysgol.
Defnyddio system tracio cynnydd i adnabod anghenion y dysgwyr, targedu ymyriadau pellach a monitro effaith.	Mae'r system tracio wedi galluogi staff i adnabod anghenion dysgwyr yn gynnar a chynllunio ymyriadau pwrpasol. Mae monitro rheolaidd wedi sicrhau bod cymorth yn cael ei addasu yn ôl yr angen, gan gyfrannu at gynnydd cadarn ymhlith y rhan fwyaf o'r disgyblion.
Sicrhau bod staff cymorth wedi'u hyfforddi i'r radd uchaf a'u bod yn deall yn glir y ddarpariaeth maent yn arwain arni, e.e. ymyriadau llythrennedd emosiynol megis ELSA a Tyfu Trwy'r Tymhorau.	Mae hyfforddiant priodol wedi sicrhau bod staff cymorth yn darparu ymyriadau o ansawdd uchel ac yn gweithredu'n gyson. O ganlyniad, mae disgyblion wedi elwa ar gymorth effeithiol sy'n ymateb yn dda i'w hanghenion emosiynol a chymdeithasol, gan gefnogi eu lles a'u parodrwydd i ddysgu.
Cyfrannu tuag at 20% o gostau teithiau preswyl.	Mae'r cyfraniad wedi sicrhau bod pob disgybl yn gallu manteisio ar y profiadau preswyl gwerthfawr, waeth beth fo'u hamgylchiadau ariannol. Mae'r profiadau wedi cyfrannu at ddatblygu annibyniaeth, hyder, medrau cymdeithasol a lles y disgyblion, yn ogystal â chryfhau eu hymdeimlad o berthyn a'u profiadau dysgu.
Cyfrannu at gyflog cymhorthydd i ddatblygu llythrennedd a rhifedd cynnar y disgyblion.	Mae'r gefnogaeth ychwanegol wedi galluogi disgyblion i dderbyn cymorth cynnar wedi'i dargedu mewn llythrennedd a rhifedd. O ganlyniad, mae'r rhan fwyaf wedi gwneud cynnydd da yn eu medrau sylfaenol,

	wedi datblygu mwy o hyder ac yn ymgysylltu'n fwy cadarnhaol â'u dysgu.
--	--

Rhaglenni a ddarperir yn allanol

Dylech gynnwys enwau unrhyw raglenni a brynwyd gennych yn ystod y flwyddyn academiaidd flaenorol. Bydd hyn yn ein helpu i ganfod pa rai sy'n boblogaidd yng Nghymru.

Rhaglen	Darparwr
Gallwch ychwanegu neu ddileu rhesi yn ôl yr angen	

Gwybodaeth ychwanegol (dewisol)

--